Y Comisiwn Etholiadol

Rhan A – rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau

Etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru: canllaw ar gyfer Swyddogion Canlyniadau

Rhagfyr 2016 (diweddarwyd ym mis Ionawr 2022)

Yn y canllaw hon rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylech/dylid' ar gyfer pethau yr ystyriwn i fod yn arfer a argymhellir, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Fformatau eraill

Mae ein holl ganllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Saesneg.
Am wybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, mewn fersiwn brint bras, neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid
Gorffennaf 2018	Wedi ei diweddaru i ddwyn i ystyriaeth Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018
Rhagfyr 2021	Canllaw annibynnol ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru i ymgorffori newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

Cynnwys

1 Cyflwyniad i'r canllaw hon 1

Diben 1

Sut i ddefnyddio'r canllaw hon 2

Terminoleg 2

2 Cyd-destun etholiadau llywodraeth leol 4

Natur y cystadlu 4

Maint 4

Cofrestru etholwyr 5

3 Rolau a chyfrifoldebau 6

Eich rôl a'ch cyfrifoldebau 6

Eich sgiliau a'ch gwybodaeth 7

Torri dyletswyddau swyddogol a'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol 8

Atodiad A – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr 11

1 Cyflwyniad i'r canllaw hon

Diben

1.1. Diben y canllaw hon yw cynorthwyo'r Swyddogion Canlyniadau gyda'r arferion a'r gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

1.2. Mae'r canllaw wedi cael ei datblygu ar ôl ymgynghori agos gyda Bwrdd Cydlynu a Chynghori Etholiadol y DU (ECAB), y Gweithgor Etholiadau, Cofrestru, a Refferenda (ERRWG), a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA). Mae'n adlewyrchu'r hyn rydym ni, yr ECAB, yr ERRWG a'r AEA yn credu y dylai Swyddogion Canlyniadau ei ddisgwyl gan eu staff wrth gynllunio ar gyfer a darparu etholiadau llywodraeth leol.

1.3. Mae'r canllaw ar gyfer etholiadau prif ardaloedd ond mae hefyd yn cwmpasu cynnwys sy'n berthnasol i gynllunio ar gyfer a gweinyddu etholiadau cynghorau cymuned a refferenda maerol. Tynnir sylw at wahaniaethau mewn blychau testun drwy gydol y canllaw, ynghyd ag ystyriaethau penodol sy'n ymwneud ag etholiadau cyfunol[i]. Felly, wrth ddarllen cyfeiriadau yn y canllaw hwn at etholiadau llywodraeth leol dylid cynnwys etholiadau cynghorau cymuned, oni bai y nodir yn wahanol.

1.4. Mae'r canllaw hon wedi cael ei chynhyrchu ar sail y gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth ganlynol (a ddiwygiwyd), a dylid ei darllen yn unol â hynny:

- Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Etholiadau) (Cymru a Lloegr) 2004
-
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008
- Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013
- Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021
- Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

1.5. Mae'r rhestr uchod ond yn cynnwys y deddfwriaethau sy'n darparu yn yr ardaloedd y mae'r canllaw hon yn berthnasol iddynt ac sydd mewn grym ar hyn o bryd.

---

[i] Nid yw'r canllaw hon yn cwmpasu cyfuno gydag unrhyw etholiadau eraill heblaw'r rheiny a restrir.

1.6. Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu data personol yn ei gyfanrwydd. Mae Swyddogion Canlyniadau yn gyfrifol yn bersonol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data. Yn ogystal â'r diweddariadau i'r canllaw hon, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi adnodd i'ch cefnogi chi i gyflawni'ch rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth diogelu data gan ei bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau gweinyddu etholiadol.

1.7. Mae'n ofynnol arnoch hefyd i ystyried y ddyletswydd gydraddoldeb o ran y sector cyhoeddus sydd wedi'i chynnwys yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth gyflawni'ch dyletswyddau. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru hefyd ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n gofyn bod gwasanaethau yng Nghymru yn cael eu darparu'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Sut i ddefnyddio'r canllaw hon

1.8. Mae'r canllaw wedi'i rhannu mewn i chwe adran:

Rhan A – Rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau (ar gael yn Saesneg)
Rhan B – Cynllunio a threfnu (ar gael yn Seasneg a Gymraeg)
Rhan C – Gweinyddu'r bleidlais (ar gael yn Seasneg a Gymraeg)
Rhan D – Pleidleisio absennol (ar gael yn Seasneg a Gymraeg)
Rhan E – Dilysu a chyfrif y pleidleisiau (ar gael yn Seasneg a Gymraeg)
Rhan F – Ar ôl datgan y canlyniadau (ar gael yn Seasneg a Gymraeg)

1.9. Mae pob un o'r rhannau hyn yn cynnwys:

- yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud yn ôl y gyfraith ('angenrheidiau')
- beth rydym ni'n disgwyl y bydd angen i chi gael yn eu lle, a beth y byddem yn disgwyl gweld i allu bod yn fodlon bod prif ganlyniadau safonau perfformiad y Comisiwn yn gallu cael eu cyflawni
- arferion argymelledig i'ch cynorthwyo i ddeall eich dyletswyddau a'u cyflawni

1.10. Mae adnoddau y gellir eu cyrchu drwy gysylltiadau sydd wedi'u cynnwys drwy'r canllaw hon, yn ychwanegu at y canllaw.

1.11. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y canllaw neu unrhyw fater sy'n berthnasol i weinyddu etholiadau, rydym ar gael i ddarparu cymorth parhaus. Byddwn hefyd yn darparu gwasanaeth cyngor ffôn tu allan i oriau swyddfa i ddelio gydag ymholiadau brys gweinyddu etholiadol yn y cyfnod cyn ac yn syth ar ôl unrhyw etholiadau sydd wedi'u trefnu. Ceir rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth ein gwasanaeth tu allan i oriau swyddfa yn ein Bwletin i weinyddwyr etholiadol.

Terminoleg

1.12. Yn y canllaw hon dylid darllen y term 'ward' fel 'adran etholiadol' mewn etholiadau ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol.

Yn achos cymuned sydd heb ward, dylid darllen ‘ward’ fel ‘cymuned’.

Refferenda maerol

Mewn refferendwm maerol yr ardal etholiadol yw’r ardal awdurdod lleol gyfan.

2 Cyd-destun etholiadau llywodraeth leol

2.1 Mae gan etholiad lleol heriau penodol ei hunan, ac mae'n debygol y bydd eich gwaith o gynnal etholiad llwyddiannus yn dod o dan graffu sylweddol – gan bleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol, a'r cyfryngau, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol. Nod y bennod hon yw amlygu rhai o elfennau penodol y cyd-destun sy'n berthnasol i etholiad lleol a dylech sicrhau eu bod yn tanseilio pob elfen o'ch cynllunio.

Natur y cystadlu

2.2 Gallai'r dirwedd wleidyddol ddatblygol olygu hyd yn oed mewn mannau lle bu mwyafrif yn draddodiadol, efallai na fydd hyn yn wir mwyach, sy'n golygu y gallai'r ffocws a'r amgylchiadau fod yn wahanol i unrhyw beth a brofwyd yn eich ardal o'r blaen.

2.3 Efallai bydd nifer sylweddol o bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr neu asiantiaid newydd neu llai profiadol sy'n anghyfarwydd gydag arferion a phrosesau'r mathau gwahanol o etholiadau ac a fydd angen eich cymorth i allu cyfranogi'n effeithiol.

2.4 Oherwydd y posibilrwydd o etholiadau sy'n agos wedi'u brwydro'n galed, dylech fod yn barod i uniondeb yr etholiad gael ei graffu. Bydd honiadau ac achosion o dwyll etholiadol nid yn unig yn cael effaith negyddol ar hyder etholwyr ac ymgyrchwyr, ond gallant hefyd gael effaith sylweddol ar eich gallu i reoli'r broses etholiadol yn effeithiol. Felly mae'n hanfodol eich bod yn rhoi cynlluniau manwl a chadarn ar waith ar gyfer monitro a chynnal cywirdeb yr etholiad yn eich ardal. Dylech weithio'n agos gyda'r heddlu lleol, gan sicrhau bod gennych linellau cyfathrebu da ar gyfer cyfeirio unrhyw honiadau.

Maint

2.5 Bydd lefel y gwaith paratoadol y bydd angen i chi ei wneud cyn etholiad yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau amrywiol, gan gynnwys p'un a yw'n etholiad trefnedig neu'n is-etholiad, faint o'r ardal awdurdod lleol sy'n cynnal etholiadau a faint o etholiadau cyfun sy'n cael eu cynnal, os oes unrhyw o gwbl.

2.6 Er enghraifft, pan fod y bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol wedi'i chyfuno gyda'r bleidlais mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sydd â mwy na dau ymgeisydd, byddai dwy system etholiadol wahanol yn cael eu defnyddio, yn ymgorffori dau ddull pleidleisio, gyda dau bapur pleidleisio gwahanol. Felly, bydd gwybodaeth ynghylch sut i bleidleisio, sy'n glir ac wedi'i theilwra i bleidleiswyr, yn hanfodol er mwyn lleihau unrhyw gymysgwch.

2.7 Bydd angen i nifer o'r agweddau cynllunio ar gyfer yr etholiad adlewyrchu tybiaethau ynghylch faint o bobl sy'n debygol o bleidleisio. Mae sefydlu tybiaethau tebyg yn gynnar wrth gynllunio yn holl bwysig gan fod y cwmpas ar gyfer addasu cynlluniau yn hwyrach yn y broses yn gyfyngedig. Mae heriau bob amser gyda datblygu tybiaethau cynllunio tebyg, ac mae'n aml yn anodd rhagweld cyn cyfnod etholiad beth fydd y lefelau ymgysylltu yn debygol fod mewn etholiad penodol. O ystyried y potensial ar gyfer lefelau uchel o fuddiant ac ymgysylltu, gyda rhai lefelau na fyddant yn dod yn glir tan yn agos at yr etholiad, mae angen i'r potensial am nifer fawr o bleidleiswyr gael ei adlewyrchu ym mhob agwedd o gynllunio ar gyfer etholiad.

2.8 Er enghraifft, byddai mwy o bobl yn pleidleisio yn golygu mwy o bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio, ac mae'n hanfodol bod darpariaeth addas o orsafoedd pleidleisio, gyda nifer y gorsafoedd a niferoedd y staff oddi mewn iddynt yn ddigonol i ymdopi â nifer yr etholwyr a ddyrennir iddynt. Er bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu pleidleisio gan unrhyw bleidleisiwr sydd yn y llinell ar gyfer ei orsaf bleidleisio erbyn 10pm, erys yr angen i sicrhau nad yw pleidleiswyr yn wynebu oedi gormodol wrth bleidleisio, a'u bod yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel.

2.9 Wrth i'r etholiad agosáu, bydd y cyd-destun yn parhau i ddatblygu wrth i'r ymgyrchoedd fynd yn gynt. Bydd angen i chi fod yn barod i ymateb i ddigwyddiadau a allai effeithio ar gynnal y bleidlais yn llwyddiannus, a bydd hyn yn cynnwys cael cynlluniau wrth gefn y gallwch droi atynt pan fydd angen.

2.10 Mae'n debygol y bydd yna ffocws ar y cyfrif ac ar ddatgan y canlyniadau. Bydd hi'n bwysig rheoli disgwyliadau, nid un unig rhai'r cyfryngau ond hefyd rhai pawb sydd â diddordeb yn y canlyniadau, drwy ymgynghori ar eich dull arfaethedig ac wedyn cyfathrebu'n glir yr hyn rydych yn disgwyl ei gyflawni ac erbyn pryd.

Cofrestru etholwyr

2.11 Mae'r ffocws ar niferoedd y rheiny sydd wedi cofrestru ac sydd heb gofrestru mor broffil uchel ag erioed, a bydd hyn yn parhau.

2.12 Mae cofrestru ar-lein yn benodol yn rhoi mwy o gyfleoedd i chi ymgysylltu â thrigolion lleol yn y broses ddemocrataidd a hybu lefelau cofrestru ymhlith grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru. Mae etholiadau yn darparu bachyn ar gyfer gweithgarwch lleol ymgysylltu a'r cyhoedd. Gallai cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid lleol sy'n gallu ymgysylltu â phleidleiswyr mewn grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru yn eich ardal, fod yn rhan werthfawr o'ch gwaith ymgysylltu lleol, a dylech geisio'r cyfleoedd hyn a neidio atynt.

2.13 Dylid rhagweld y potensial am nifer fawr o geisiadau cofrestru yn agos at y dyddiad cau a dylai hyn gael ei adeiladu yn eich cynlluniau, gan adlewyrchu gwersi a ddysgwyd o brofiadau etholiadau diweddar. Hyd yn oed pan nad ydych hefyd yn Swyddog Cofrestru Etholiadau, bydd effaith ceisiadau o'r fath a chwestiynau perthnasol gan drigolion ynghylch eu statws cofrestru yn cael goblygiadau ar gyfer sut y cynhelir y bleidlais, a dylai'ch cynlluniau sicrhau eich bod yn gallu ymateb yn effeithiol.

3 Rolau a chyfrifoldebau

3.1 Mae'n rhaid i bob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol benodi swyddog cyngor i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer y broses o ethol cynghorwyr i'w hawdurdod lleol.[1]

Etholiadau cynghorau cymuned

Mae'n rhaid i bob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol benodi swyddog cyngor i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer y broses o ethol cynghorwyr ar gyfer cymunedau o fewn y sir/bwrdeistref sirol.[2] Gall hwn fod yr un person â'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau prif ardaloedd, ond does dim rhaid iddo fod.

Refferenda maerol

Mewn refferendwm maerol, y Swyddog Cyfrif, sef y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau prif ardaloedd, sy'n gyfrifol am y refferendwm (h.y. y person a benodir fel y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau cynghorwyr prif ardaloedd yw'r Swyddog Cyfrif ar gyfer refferenda maerol hefyd)[3].

Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

3.2 Fel Swyddog Canlyniadau, mae gennych rôl ganolog yn y broses ddemocrataidd. Eich rôl yw sicrhau bod yr etholiad yn cael ei weinyddu'n llwyddiannus, ac o ganlyniad, bod profiad pleidleiswyr a'r rheiny sy'n sefyll yn yr etholiad yn un cadarnhaol. Dylech nodi'n gynnar yr hyn yr ydych am ei gyflawni a sut byddai llwyddiant yn edrych i chi.

3.3 Fel Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol rydych yn gyfrifol yn bersonol am drefn cynnal etholiad llywodraeth leol, gan gynnwys:

- cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad
- gweinyddu'r broses enwebu
- argraffu'r papurau pleidleisio
- cyhoeddi'r hysbysiad o bleidlais, y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r hysbysiad o leoliad y gorsafoedd pleidleisio
- darparu'r gorsafoedd pleidleisio
- penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- rheoli'r broses pleidleisio drwy'r post
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau
- datgan y canlyniad

3.4 Pan fod etholiad llywodraeth leol wedi'i chyfuno â'r bleidlais mewn digwyddiad etholiadol pellach, bydd Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif yn cymryd cyfrifoldeb am elfennau cyfun y bleidlais, gan gynnwys[4]:

- darparu'r gorsafoedd pleidleisio
- penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- cyhoeddi'r hysbysiad o leoliad y gorsafoedd pleidleisio
- rhoi cyfarpar yn y gorsafoedd pleidleisio
- yr hysbysiad o'r angen am gyfrinachedd mewn gorsafoedd pleidleisio
- llofnodi tystysgrifau cyflogaeth ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio sy'n eu galluogi i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio maent yn gweithio ynddi, yn hytrach na'r un a roddwyd iddynt
- rhoi awdurdodiad i orchymyn symud personau o orsafoedd pleidleisio
- dilysu'r holl bapurau pleidleisio
- lle y penderfynwyd cyfuno dosbarthiad pleidleisiau post:
  - y rhestr rhifau cyfatebol
  - pleidleisiau post, gan gynnwys creu copi o restr y pleidleiswyr post a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post a'i farcio wrth gyhoeddi
  - agor amlenni pleidleisio post, gan gynnwys marcio datganiadau pleidleisio post sydd wedi'u dychwelyd ar y rhestrau, a dilysu'r dynodyddion personol ar y datganiadau pleidleisio post sydd wedi'u dychwelyd

Refferenda maerol

Pan fydd y bleidlais mewn refferendwm maerol yn cael ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol, bydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholiad llywodraeth leol yn cymryd ymlaen swyddogaethau'r Swyddog Cyfrif yn y refferendwm[5].

3.5 Mae'ch dyletswyddau fel Swyddog Canlyniadau ar wahân i'ch dyletswyddau fel swyddog llywodraeth leol. Fel Swyddog Canlyniadau nid ydych yn atebol i'r cyngor ond rydych yn atebol yn uniongyrchol i'r llysoedd fel deiliad swydd statudol annibynnol.

3.6 Er y gallwch benodi un neu fwy o bobl i gyflawni un neu'r cyfan o'ch swyddogaethau, ni allwch ddirprwyo'ch cyfrifoldeb personol ar gyfer cynnal yr etholiad[6]. Ceir rhagor o wybodaeth am benodi dirprwyon yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

Eich sgiliau a'ch gwybodaeth

3.7 Dylai fod gennych wybodaeth weithredol o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu trefn cynnal etholiad. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â chael dealltwriaeth glir o'ch swyddogaethau statudol, dylai fod gennych drosolwg o'r

hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei chynnwys a dealltwriaeth o sut y mae'n effeithio ar weinyddu'r etholiad, er mwyn i chi allu adolygu, cwestiynu lle bo angen, a sicrhau ansawdd y broses gyfan.

3.8 Mae yna gyfrifoldebau rheoli sy'n gysylltiedig â'ch rôl. Er enghraifft, dylech:

- rheoli'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal etholiad llwyddiannus
- galw ar y cymorth, sgiliau ac arbenigedd angenrheidiol ar draws eich awdurdod lleol
- goruchwylio prosesau cynllunio, rheoli prosiect a rheoli risg yr etholiad ac ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd o etholiadau blaenorol
- nodi a goruchwylio unrhyw gamau sydd eu hangen i liniaru unrhyw broblemau sy'n codi
- sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni'r rolau a ddisgwylir ohonynt
- cynorthwyo'r staff sy'n gweinyddu'r etholiad a rhoi trosolwg priodol o'u gwaith
- rhoi cyfarwyddyd i staff, monitro cynnydd a chael adborth rheolaidd ar weithgareddau
- os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech gynnal berthynas gweithio effeithiol gydag ef
- cynnal perthynas weithio dda gyda'ch Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC) yn yr heddlu
- sicrhau bod cyfrifon etholiadau'n cael eu cwblhau'n amserol

Torri dyletswyddau swyddogol a'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol

3.9 Fel Swyddog Canlyniadau, rydych yn atebol i ddarpariaethau torri dyletswyddau swyddogol. Mae hyn yn golygu os ydych chi neu'ch dirprwyon penodedig, heb achos rhesymol, yn euog o unrhyw weithred neu anweithred sy'n torri dyletswydd swyddogol, rydych chi (a/neu'ch dirprwyon) yn agored i ddirwy ddiderfyn[7].

3.10 Mae gennych y pŵer i gymryd camau rydych yn credu eu bod yn addas i gywiro gweithrediadau neu anweithrediadau sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau'r etholiad yr ydych yn gyfrifol amdanynt ac nad ydynt yn unol â'r rheolau[8].

3.11 Mae'r pŵer hwn yn galluogi chi i wirio gwallau gweithdrefnol a wnaed gennych fel Swyddog Canlyniadau, Swyddog Cofrestru Etholiadol, Swyddog Llywyddu (neu ddirprwyon unrhyw un o'r rhain), neu berson sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i chi/iddynt[9].

3.12 Mae gwall gweithdrefnol yn cyfeirio at wall y mae rhywun wedi'i wneud yn ystod y broses o gynllunio neu gynnal yr etholiad a allai gael effaith ar broses neu ganlyniad yr etholiad. Er enghraifft, gwybodaeth anghywir yn cael ei rhoi ar gardiau pleidleisio neu bapurau pleidleisio, neu bapurau pleidleisio

drwy'r post neu bapurau pleidleisio gorsafoedd pleidleisio yn cael eu hanfon mewn camgymeriad neu ddim yn cael eu hanfon pan ddylent fod wedi cael eu hanfon. Nid yw'r enghreifftiau uchod yn gynhwysfawr, a dylech gysylltu â'ch tîm Comisiwn lleol am gymorth a chyngor os ydych o'r farn eich bod wedi gwneud gwall y gellid ei gywiro drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

3.13 Pan fyddwch yn cywiro gweithred neu anweithred yn llawn drwy ddefnyddio'ch pŵer i gywiro gwall gweithdrefnol, ni fyddwch yn euog o dorri dyletswydd swyddogol[10]. Dylech gofio nad yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn eich galluogi i ailgyfrif y pleidleisiau ar ôl i'r canlyniad cael ei ddatgan[11].

3.14 Gan eich bod yn gyfrifol yn bersonol am drefn cynnal etholiad, dylech sicrhau bod gennych sicrwydd yswiriant a'i fod yn gyfredol. Dylech fod yn barod i ddangos prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau gwydn os caiff unrhyw etholiad ei herio a gwneir honiad yn eich erbyn. Efallai bydd y tîm yn eich awdurdod lleol sy'n delio gydag yswiriant yn gallu helpu pennu pa sicrwydd presennol sydd ar gael, a rhoi cyngor ynghylch p'un a ddylid ei ymestyn.

4 Safonau perfformiad

4.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gosod safonau ac yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad Swyddogion Canlyniadau[12]. Mae'r safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau i'w cael yn Atodiad A - Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau.

4.2 Cafodd y fframwaith ei datblygu o amgylch canlyniadau allweddol o safbwynt pleidleiswyr a'r rheiny sydd am sefyll mewn etholiad, ac yn benodol p'un a yw Swyddogion Canlyniadau'n cymryd y camau angenrheidiol i ddarparu'r canlyniadau canlynol:

- Pleidleiswyr yn gallu pleidleisio'n hawdd a gwybod y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y modd a fwriadwyd
- Mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll mewn etholiad ddarganfod sut i wneud hyn, beth yw'r rheolau a beth sydd angen iddyn nhw wneud i gydymffurfio gyda'r rheolau hyn, a gallant fod yn hyderus yn rheolaeth y broses a'r canlyniad.

4.3 Mae Rhannau B i F o'r canllaw hon yn cynnwys beth rydym ni'n disgwyl i Swyddogion Canlyniadau gael yn eu lle, a beth y byddem yn disgwyl gweld i allu bod yn fodlon bod prif ganlyniadau'r safonau yn gallu cael eu darparu.

Atodiad A – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr

Safon perfformiad 1: Pleidleiswyr

Sicrhau bod cynllunio ar gyfer a darparu'r bleidlais yn galluogi pleidleiswyr i bleidleisio'n hawdd a gwybod y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y modd a fwriadwyd ganddynt.

Canlyniad	Beth sydd angen i'r Swyddog Canlyniadau wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos sut mae'r canlyniad wedi'i fodloni
Pleidleiswyr yn derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn da bryd i fwrw'u pleidlais.	• Datblygu a rhoi prosesau rheoli project gwydn ar waith • Gwerthuso cynllunio a darparu pleidleisiau blaenorol a nodi gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddaru cynlluniau fel bo gofyn • Rhoi trefniadau yn eu lle i reoli contractwyr a chyflenwyr fel bod gwaith yn cael ei ddarparu fel sy'n ofynnol yn ôl y fanyleb • Sicrhau bod prosesau gwydn yn eu lle i sicrhau nad oes camgymeriadau ar ddeunyddiau pleidleiswyr,	• Dogfennaeth cynllunio prosiect sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd • Dogfennaeth cynllunio sy'n adlewyrchu gwersi a ddysgwyd • Trefniadau yn eu lle ar gyfer rheoli contractwyr a chyflenwyr • Prosesau ar gyfer gwirio deunydd pleidleiswyr, yr hysbysiad o bleidlais a'r hysbysiad o etholiad • Gwybodaeth ar y dull danfon ar gyfer cardiau pleidleisio, gan gynnwys amcangyfrif o pryd y bydd cardiau pleidleisio yn cael eu dosbarthu.

	hysbysiad o bleidlais na hysbysiad o etholiad • Sicrhau bod cardiau pleidleisiau yn cael eu derbyn gan bleidleiswyr cyn gynted â phosibl, fel bod gan y pleidleiswyr cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth • Sicrhau bod gwybodaeth ar y bleidlais, gan gynnwys yr hysbysiad o etholiad a hysbysiad o bleidlais, yn hygyrch i bleidleiswyr, megis trwy wefan yr awdurdod lleol	• Gwybodaeth ar y bleidlais ar gael yn hawdd drwy wefan yr awdurdod lleol
Pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon uchel	• Sicrhau bod anghenion mynediad yn cael eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer a gosod gorsafoedd pleidleisio • Penderfynu ar ddyrannu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio i sicrhau bod digon o staff mewn gorsafoedd pleidleisio fel bod pleidleiswyr yn gallu cael gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ystyried y ffactorau a osodir yng nghanllawiau'r Comisiwn • Sicrhau bod staff gorsaf bleidleisio wedi'u hyfforddi i osod gorsafoedd pleidleisio mewn modd sy'n ystyried anghenion y pleidleisiwr • Sicrhau bod pecynnau pleidleisio post yn cael eu derbyn gan	• Asesiad o ran anghenion mynediad, gan nodi unrhyw broblemau a chamau i'w cymryd i ddatrys y rhain • Dull a gymerir i ddyrannu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio • Canllawiau/hyfforddiant a ddarperir i staff gorsaf bleidleisio • Gwybodaeth ar y dull danfon ar gyfer pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan gynnwys amcangyfrif o pryd y bydd pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu dosbarthu

	bleidleiswyr cyn gynted â phosibl, fel bod gan y pleidleiswyr cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth	
Mae gan pleidleiswyr hyder y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y modd a fwriadwyd	• Cynnal trywydd archwilio clir o rhoi, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post • Cael prosesau yn eu lle i nodi unrhyw batrymau o weithgarwch a allai nodi problemau uniondeb posibl, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ddelio gyda phroblemau o'r fath • Cynnal storio diogel y papurau pleidleisio a'r pecynnau pleidleisio post drwy'r amser • Rhoi adnoddau priodol yn eu lle i sicrhau bod y dilysu a'r cyfrif yn amserol • Sichrau bod y canlyniadau'n cael eu cyfathrebu i'r pleidleiswyr mewn modd clir ac amserol • Sicrhau bod prosesau cyfrif wedi'u dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda thrywydd archwilio clir	• Trefniadau i gynnal trywydd archwilio clir o rhoi, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post • Prosesau ar gyfer delio gyda phroblemau uniondeb • Trefniadau ar gyfer storio papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel • Gwybodaeth ar sut bydd y dilysu a'r cyfrif yn cael eu trefnu a'u rheoli, gan gynnwys y prosesau y dilynoch i wneud eich penderfyniad • Trefniadau ar gyfer cyfathrebu canlyniadau i bleidleiswyr • Trefniadau i gynnal trywydd archwilio clir o'r broses cyfrif

Safon perfformiad 2: Y rheiny sydd am sefyll mewn etholiad

Sicrhau bod cynllunio a darparu'r bleidlais yn galluogi pobl sydd am sefyll mewn etholiad i ddarganfod sut i gymryd rhan, beth yw'r rheolau a beth sydd angen iddyn nhw wneud i gydymffurfio â'r rheolau hyn, ac yn eu galluogi i fod yn hyderus yn rheolaeth y broses a'r canlyniad

Canlyniad	Beth sydd angen i'r Swyddog Canlyniadau wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos sut mae'r canlyniad wedi'i fodloni
Pobl sydd am sefyll mewn etholiad yn derbyn yr holl wybodaeth sydd angen arnynt i gymryd rhan	• Sicrhau bod gwybodaeth ar y broses etholiadol a gwariant ar gael yn haws i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys trwy ddarparu sesiynau briffio a sicrhau eu bod yn cael canllawiau ysgrifenedig • Sicrhau bod gan ymgeiswyr y cyfle i gael eu papurau enwebu wedi'u gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol	• Canllawiau ysgrifenedig yn cael eu rhoi i ymgeiswyr • Dyddiad(au) sesiynau briffio ac adnoddau briffio • Trefniadau i ymgeiswyr gael eu papurau enwebu wedi'u gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol

Mae ymgeiswyr yn hyderus bod y broses wedi'i rheoli'n dda, a mae ganddynt hyder yn y canlyniadau	• Sicrhau bod y rheiny sydd â hawl mynd i sesiynau agor pleidleisiau post yn gallu dilyn beth sy'n digwydd, ble a phryd • Sicrhau bod prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phopeth yn y dilysu a'r cyfrif yn cael ei wneud yn ngwydd y rheiny sydd â hawl mynychu, gyda gwybodaeth i fynychwyr ar y prosesau i'w dilyn • Sicrhau bod prosesau cyfrif wedi'u dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda thrywydd archwilio clir • Cael prosesau yn eu lle i nodi unrhyw batrymau o weithgarwch a allai nodi problemau uniondeb posibl, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ddelio gyda phroblemau o'r fath	• Cynllun y sesiynau agor pleidleisiau post • Gwybodaeth wedi'i darparu i fynychwyr sesiynau agor pleidleisiau post • Cynllun y cyfrif • Gwybodaeth wedi'i darparu i fynychwyr y cyfrif • Trefniadau i gyfathrebu cynydd yn y cyfrif • Trefniadau i gynnal trywydd archwilio clir o'r broses cyfrif • Prosesau ar gyfer delio gyda phroblemau uniondeb

Safon perfformio ar gyfer deiliaid swyddi statudol gyda grym cyfarwyddo

Safon perfformiad 3: Cydlynu a rheoli'r bleidlais **Cydlynu'r cynllunio ar gyfer a darparu'r bleidlais i sicrhau profiad o ansawdd uchel cyson i bleidleiswyr a'r rheiny sydd am sefyll mewn etholiad**		
Canlyniad	Beth sydd angen i'r deiliad swydd statudol wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos sut mae'r canlyniad wedi'i fodloni
Sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau lleol trefniadau angenrheidiol yn eu lle i ddarparu etholiadau llwyddiannus yn eu hardal	• Datblygu a rhoi prosesau rheoli project gwydn ar waith • Datblygu canllawiau a rhoi cyfarwyddyd lle bo gofyn i sicrhau gweinyddu'r pleidleisiau'n effeithiol ym mhob ardal Swyddog Canlyniadau lleol	• Dogfennaeth cynllunio prosiect sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd • Trefniadau ar gyfer sicrhau darparu'r bleidlais yn gyson, gan gynnwys rhoi canllawiau a ph'un a ydych wedi defnyddio'ch grym i roi cyfarwyddyd ac os felly sut

	• Datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer cyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau lleol • Datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer cydlynu a darparu gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu gydag etholwyr ar draws yr ardal • Lle'n briodol, datblygu proses ar gyfer derbyn a chyflwyno canlyniadau lleol	• Cynlluniau ar gyfer cyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau lleol • Strategaeth ar gyfer cydlynu a darparu gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu gydag etholwyr ar draws yr ardal • Trefniadau ar sut yr ydych yn bwriadu rheoli'r broses o gasglu canlyniadau lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau a chanllawiau a roddwyd i Swyddogion Canlyniadau lleol

[1] Adran 35(1A) o RPA 1983
[2] Adran 31(1) ac (1A) o RPA 1983
[3] Rheoliad 9, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008 (“Rheoliadau Refferenda Awdurdodau Lleol 2008”)
[4] Rheolau Etholiadau Cyfun - Atodlen 3 o Reolau Prif Ardaloedd 2006; Atodlen 2 o Reolau Plwyfi a Chymunedau 2006; Atodlen 3 Rheolau Maerol 2007;
[5] Rheol 2, Atodlen 5, Rheoliadau Refferenda Awdurdodau Lleol 2008
[6] Adran 35(4), 63(1) a (3)(b) o RPA 1983
[7] Adran 63(1) a (3)(b) o RPA 1983
[8] Adran 63(4) o RPA 1983; Adran 46 o Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 (“EAA 2006”)
[9] Adran 46 o EAA 2006
[10] Adran 63(4) o RPA 1983
[11] Adran 46(2) o EAA 2006
[12] Adran 9A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (“PPERA 2000”)